Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN:** PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLI 080

**Amseru:** Brys – rhaid cytuno ar leoliad erbyn 30/09/18 a'i gwblhau erbyn 01/11/18

**Teitl:** Interniaeth ar y cyd â'r Brifysgol Agored

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Gweithlu

## Crynodeb Gweithredol:

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi cynnig cyfle ar gyfer interniaeth dan nawdd Santander. Mynegodd SCHTh ddiddordeb mewn cymryd rhan, ac fe'i derbyniwyd fel lleoliad addas. Bydd y Brifysgol Agored yng Nghymru'n marchnata'r cyfle i bob myfyriwr perthnasol (y rhai sy'n bwriadu graddio'r haf hwn). Bydd y myfyriwr yn derbyn cyflog o £300 yr wythnos, gyda'r lleoliad yn para hyd at 10 wythnos a'r bythefnos gyntaf yn cael ei hariannu gan Santander. Bydd Santander hefyd yn ariannu 50% o wythnosau tri i ddeg, gyda SCHTh yn ariannu'r hanner arall. Gan hynny, y cyfanswm o ran cost i SCHTh fydd £1,200 ar gyfer lleoliad 10 wythnos o hyd.

Bwriedir lleoli'r myfyriwr o fewn y tîm sicrwydd yn y swyddfa, gan ganolbwyntio ar gefnogi prosiect o weithgareddau craffu sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd dros y cyfnod o 10 wythnos. Bydd hynny'n helpu i gefnogi'r portffolio sicrwydd ehangach ac yn sicrhau bod grwpiau cymunedol amrywiol yn cael cyfle i fwydo i mewn i weithgarwch craffu'r Comisiynydd.

Bydd SCHTh yn gyfrifol am lunio rhestr fer, cyfweld, dewis, fetio, penodi a chyflogi'r unigolyn, gyda Santander yn rhoi grant fel eu cyfraniad nhw.

## Argymhelliad:

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo bod SCHTh yn cyflogi myfyriwr fel prentis am 10 wythnos ar y cyd â'r Brifysgol Agored yng Nghymru a'i recriwtio gan ddefnyddio gweithdrefn recriwtio arferol SCHTh.

## Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 8/6/2018